



Themau - *Themes*

Mae hi'n... It is ... + geirfa tywydd / weather vocabulary

Patrymau Iaith - *Language patterns*

Mae angen defnyddio 'hi' pan dyn ni'n siarad am y tywydd:
We use the feminine form when we talk about the weather:
Mae hi'n heulog = *It's sunny*

Sut mae'r tywydd? *How is the weather?*

Mae hi'n braf	<i>It's fine</i>
Mae hi'n heulog	<i>It's sunny</i>
Mae hi'n dwym	<i>It's warm</i>
Mae hi'n oer	<i>It's cold</i>
Mae hi'n wyntog	<i>It's windy</i>
Mae hi'n stormus	<i>It's stormy</i>
Mae hi'n gymylog	<i>It's cloudy</i>
Mae hi'n bwrw glaw	<i>It's raining</i>
Mae hi'n bwrw eira	<i>It's snowing</i>
Mae hi'n ddiflas	<i>It's miserable</i>

Cwestiwn
Ydy hi'n braf? *Is it fine?*

Yes
Ydy, mae hi'n braf *Yes, it's fine*

No
Nac ydy, dyw hi ddim yn braf *No, it's not fine*

Esiampiau ychwanegol - *Extra examples*

Weithiau dyn ni'n clywed 'dydy hi ddim' yn lle 'dyw hi ddim'.
We sometimes hear 'dydy hi ddim' rather than 'dyw hi ddim'.

Dydy hi ddim yn braf - *It's not fine*
Weithiau dyn ni ddim yn dweud yr 'hi'.
You will hear it shortened sometimes.

Mae'n braf - *It's fine*

I sôn am y tywydd ddoe ac yfory, dyn ni'n defnyddio 'oedd' a 'bydd'.

To talk about the weather yesterday and tomorrow we use 'oedd' and 'bydd'.

Roedd hi'n braf ddoe. *It was fine yesterday.*
Bydd hi'n oer yfory. *It will be cold tomorrow.*
Fydd hi ddim yn dwym. *It won't be warm.*
Fydd hi'n sych? *Will it be dry?*

Tasgau - Tasks

Tasg sain 1 / Audio task 1

Pa un o'r geiriau hyn sy DDIM yn y ddeialog ?.

Which one of these words are NOT In the dialogue?

braf
twym
diflas
oer
niwlog
bwrw eira
cymylog
gwyntog
bwrw glaw

Tasg sain 2 / Audio task 2

Llenwch y bylchau.

Fill the gaps.

1. Roedd hi'n _____ ddoe.
2. Mae hi'n _____ ac yn _____ yng Nghaerdydd.
3. Mae hi'n _____ yn y Gogledd.
4. Mae hi'n _____ yn Sir Fôn.
5. Bydd hi'n _____ yn y De yfory.
6. Bydd hi'n _____ ac yn _____ yn Eryri yfory.
7. Efallai bydd hi'n _____.
8. Dros y penwythnos bydd hi'n _____.

Sgript Sain 1 - Audio Script 1

- Sara:** Bore da Hannah!
- Hannah:** Sut mae Sara. Mae hi'n ddiflas on'd yw hi?
- Sara:** Ydy wir. Mae hi'n oer ac yn niwlog.
- Hannah:** Ac yn gymylog, ac yn wyntog. Ych y fi!
- Sara:** Ac mae hi'n mynd i fwrw glaw, dw i'n siwr.
- Hannah:** Sut mae Anna dy chwaer?
- Sara:** Mae hi'n o lew diolch - mae hi yn Sbaen gyda'r plant yr wythnos yma.
- Hannah:** Yn Sbaen! Yn y tywydd braf gobeithio!
- Sara:** Mae hi'n dwym iawn iawn!!
- Hannah:** A sut mae Dafydd dy frawd?
- Sara:** Mae e'n iawn diolch.
- Hannah:** Ydy e'n gweithio yn Ffrainc o hyd?
- Sara:** Ydy, mae e'n gweithio yn Yr Alpau ac mae e'n gallu sgio bob dydd.
- Hannah:** Wel, mae Dafydd yn hoffi tywydd oer 'te!
- Sara:** O ydy.
- Hannah:** Wel, wel! Mae hi'n braf yn Sbaen, mae hi'n oer yn yr Alpau.....
- Sara:** Ac mae hi'n bwrw glaw yng Nghymru!
- Hannah:** O wel, beth am ginio bach yn y caffi.
- Sara:** Syniad da Hannah, mae hi'n dwym yn y caffi hefyd. Dere!

Geirfa

diflas - *miserable*
oer - *cold*
niwlog - *foggy*
cymylog - *cloudy*
gwyntog - *windy*
braf - *fine*
twym - *warm*
gweithio - *(to) work*
bwrw glaw - *raining*

Sgript Sain 2 - Audio Script 2

- Lucy:** A dyna'r newyddion, ond beth am y tywydd Derek? Roedd hi'n braf iawn ddoe ond heddiw mae hi'n oer iawn!
- Derek:** Wel sut mae bawb! Ydy, mae hi'n oer yng Nghaerdydd ac mae hi'n wyntog yma hefyd.
- Lucy:** Beth am Ogledd Cymru? Ydy hi'n braf yng Nghaernarfon?
- Derek:** Nac ydy, dyw hi ddim yn braf yng Nghaernarfon. Mae hi'n ddiflas yn y Gogledd, ac mae hi'n bwrw glaw yn Sir Fôn ar hyn o bryd, felly cofiwch am yr ambarel!
- Lucy:** O diar! Beth am yfory Derek? Sut bydd y tywydd yfory?
- Derek:** Wel! Bydd hi'n sych yn y De yfory ond fydd hi ddim yn dwym iawn.
- Lucy:** Fydd hi'n sych yn y Gogledd yfory?
- Derek:** Bydd hi'n bwrw glaw eto yn Sir Fôn a bydd hi'n niwlog ac yn stormus yn Eryri yn y bore ac efallai bydd hi'n bwrw eira yn y prynhawn.
- Lucy:** Bwrw eira! Wel bydd y plant yn hapus!
- Derek:** Wrth gwrs, bydd y plant yn hapus! Ond Lucy! Ar y penwythnos bydd hi'n heulog - dim glaw, dim eira, a dim gwynt.
- Lucy:** Wel dyna newyddion da! Diolch Derek. Bydd y bwletin nesa am un o'r gloch. Hwyl am y tro.

Geirfa

braf - *fine*
oer - *cold*
diflas - *miserable*
bwrw glaw - *raining*
sych - *dry*
twym - *warm*
niwlog - *foggy*
bwrw eira - *snowing*
heulog - *sunny*

Atebion - Answers

Tasg sain 1 / Audio task 1

bwrw eira

Tasg sain 2 / Audio task 2

1. Roedd hi'n braf ddoe.
2. Mae hi'n oer ac yn wyntog yng Nghaerdydd.
3. Mae hi'n ddiflas yn y Gogledd.
4. Mae hi'n bwrw glaw yn Sir Fôn.
5. Bydd hi'n sych yn y De yfory.
6. Bydd hi'n niwlog ac yn stormus yn Eryri yfory.
7. Efallai bydd hi'n bwrw eira.
8. Dros y penwythnos bydd hi'n heulog.